



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol:

**Adroddiad cynnydd ar gyfer y cyfnod
1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018.**

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: Adroddiad cynnydd ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018.

Dan adran 12 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf'), rhaid i Weinidogion Cymru, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gyhoeddi adroddiad sy'n mynd i'r afael â'r isod:

- ✓ y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion yn y strategaeth genedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (2016-2021);
- ✓ y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni diben Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yng Nghymru (gan gyfeirio at y dangosyddion cenedlaethol)
- ✓ rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol yn y dyfodol ac unrhyw ddata dadansoddol eraill (os yw'n cael ei gyhoeddi yn ystod y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â dyddiad etholiad cyffredinol)

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2018. Gan nad yw'r adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi o fewn 12 mis i etholiadau diwethaf y Cynulliad, nid yw'n cynnwys rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol ar gyfer 2018-2019. Nid yw gwaith a wnaed wedi Mawrth 2018 wedi ei gynnwys.

Sylwer

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i adrodd ar gynnydd a wnaed tuag at gyflawni diben Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yng Nghymru gan gyfeirio at y dangosyddion cenedlaethol. Nid yw'r dangosyddion cenedlaethol wedi'u cyflwyno eto felly darparwyd amlinelliad o'r cynnydd ar sail amcanion y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2016 – 2021).

Bydd y Cynghorwyr Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, mathau eraill o Drais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn datblygu'r Dangosyddion Cenedlaethol a disgwyliwn iddynt gael eu cyhoeddi yn 2018.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol hefyd i'r adroddiad hwn esbonio unrhyw ddiwygiadau i'r strategaeth. Ni chafwyd unrhyw ddiwygiadau.

Amcan 1: Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cymru.

Datblygwyd y gwaith ar yr amcan hwn trwy gyfrwng sawl llif gwaith sy'n ategu ei gilydd. Mae'r gwaith i ddatblygu Fframwaith Cenedlaethol Ymgysylltu â Goroeswyr wedi creu cysylltiadau llawer cryfach â dioddefwyr camdriniaeth, a hynny, yn ei dro, wedi creu perthynas waith â goroeswyr a grwpiau goroeswyr sydd wedi gwella creadigrwydd ac ansawdd y gwaith polisi a gyflwynwyd eleni. Mae goroeswyr camdriniaeth wedi cael dylanwad mawr ar y ffordd o fynd ati i greu ymgyrchoedd a deunydd cyfathrebu ac mae'r gwaith hwn wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid arbenigol.

Cyflawniadau allweddol

Ym Mehefin 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru". Crëwyd y canllawiau hyn mewn partneriaeth â Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae'n galluogi gweithwyr proffesiynol o fewn gwasanaethau cyhoeddus Cymru i weithio'n fwy effeithiol â phobl hŷn sy'n wynebu cam-drin domestig neu sydd wedi ei wynebu yn y gorffennol.

Ym Medi 2017 cychwynwyd ymgyngori'n uniongyrchol â goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn datblygu cynigion ar gyfer Fframwaith Cenedlaethol Ymgysylltu â Goroeswyr. Ymgysylltwyd â phedwar grŵp ar ddeg o oroeswyr, gan gynnwys trigain o bobl oedd â phrofiad o fyw drwy gamdriniaeth. Ym mis Mawrth 2018 lansiodd papur ac ynddo ddewisiadau ar gyfer Fframwaith Cenedlaethol Ymgysylltu â Goroeswyr, ynghyd ag arolwg ar-lein. Roedd yr opsiynau hyn yn seiliedig ar yr ymgyngoriad â goroeswyr. Daw'r arolwg i ben ym mis Mai 2018.

Yn Ionawr 2018 lansiodd Llywodraeth Cymru DYMA FI: ymgyrch i herio stereoteipiau ar sail rhywedd. Mae ymgyrch DYMA FI yn herio stereoteipiau rhywedd mewn ffordd gadarnhaol ac yn annog sgysiau am rywedd ac anghydraddoldeb rhywedd fel achos a chanlyniad trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Pwyslais ar Gyfathrebu

Ymgyrch DYMA FI

Ym Mawrth 2017 bu i Lywodraeth Cymru gynnull grŵp cyntaf Cyfathrebu ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys arbenigwyr ar y pwnc, pobl oedd â phrofiad o fyw drwyddo a'r rhai sydd â chyfrifoldeb am gyfathrebu ym mhob rhan o wasanaeth cyhoeddus Cymru. Cynlluniodd y grŵp 'fframwaith Cyfathrebu ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol' a dechrau'r paratodau ar gyfer lansio dwy ymgyrch newydd. Cafodd goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol eu cynnwys ar bob cam, gan gynorthwyo â manyleb y cynllun a dewis asiantaeth gyfathrebu i gyflawni briff yr ymgyrch.

Yn Ionawr 2018 lansiodd ymgyrch DYMA FI, â'r nod o herio stereoteipiau rhywedd mewn ffordd gadarnhaol, ysgogi sgysiau am rywedd ac annog pobl i 'fyw heb ofn' cyfyngiadau rhywedd a normau rhywedd.

Roedd yr ymgyrch yn cynnwys hysbyseb deledu a radio, hysbysebu mewn archfarchnadoedd a gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol. Anogwyd y rhai a welai'r ymgyrch i ymuno â'r sgwrs gan ddefnyddio #dymafi.

Ystod yr ymgyrch

- Cafwyd cynnydd o 6,042% yn y defnydd o wefan Byw Heb Ofn
- 2 filiwn o argraffiadau drwy gyfrwng hysbysebion teledu
- Bron i 5 miliwn o argraffiadau drwy gyfrwng hysbysebion radio
- Cynnydd o 43% yn nifer y rhai sy'n hoffi'r dudalen ar Facebook
- 117 o ddilynwyr newydd ar Twitter.

Bu i'r ymgyrch DYMA FI ddenu nifer sylweddol o ddilynwyr a defnyddwyr newydd i'r wefan Byw Heb Ofn, ac ysgogi trafodaeth fywiog ar-lein ac adborth cadarnhaol:

"An inspiring campaign, one of the best I've ever seen in Wales. So important to make the link between VAW and gender norms".

"So proud to be part of this campaign to challenge harmful gender stereotypes".

"Brilliant campaign from @WelshGovernment. Always 1 step ahead #VAWG #domesticabuse #GenderEquality #thisisme".

Bydd ymgyrch "Paid cadw'n dawel" Llywodraeth Cymru yn cael ei lansio ar 25 Ebrill gan ddefnyddio'r hashnod #cymruynerbyntrais. Bydd yr ymgyrch hon yn rhannu geiriau goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol trwy gyfrwng ffilm, radio a gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol.

Y camau nesaf

Bydd gwaith ymgyrchu newydd ychwanegol sy'n adeiladu ar sail #dymafi a'r ymgyrch "Paid cadw'n dawel" yn cael ei lansio yn 2018-2019.

Amcan 2: Gwell ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal ac iach a'r ffaith fod ymddygiad camdriniol yn anghywir bob amser.

Mae'r amcan hwn yn rhoi pwyslais mawr ar addysgu plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, ymdriniwyd ag ef hefyd trwy gyfrwng yr ymgyrch DYMA FI, sydd wedi taro tant â phlant a phobl ifanc, a fydd yn gynulleidfa allweddol ar gyfer yr ymgyrch hon wrth iddi symud ymlaen.

Cyflawniadau allweddol

Ym mis Mehefin 2017 cyhoeddodd Estyn “Adolygiad o addysg perthnasoedd iach”. Roedd yr adroddiad hwn yn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer addysg perthnasoedd iach mewn ysgolion yng Nghymru. Nododd strategaethau i gynorthwyo ysgolion i wella'r ddarpariaeth a'r deilliannau i ddisgyblion. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei '[H]ymateb i adroddiad thematig Estyn: Adolygiad o addysg perthnasoedd iach' ym mis Tachwedd 2017.

Ym mis Ionawr 2018 cyhoeddwyd adroddiad yn amlinellu argymhellion y Panel Arbenigol ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd (a gafodd ei gynnull gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2017). Mae'r adroddiad yn gwneud 11 o argymhellion sy'n canolbwyntio ar statws Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn y cwricwlwm, dysgu proffesiynol ac argaeledd cymorth ac adnoddau. Bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ymateb i'r argymhellion yng ngwanwyn 2018.

Amcan 3: Mwy o ffocws ar ddwyn cyflawnwyr i gyfrif, a darparu cyfleoedd iddynt newid eu hymddygiad gyda phwyslais ar ddiogelwch y dioddefwr.

Mae'r amcan hwn yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad agos â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi. Mae hyn wedi galluogi mabwysiadu agwedd arbenigol, ystyriol tuag at y maes polisi arbenigol hwn, sy'n integreiddio â gwaith ehangach o fewn y System Cyfiawnder Troseddol.

Cyflawniadau allweddol

Ym mis Ionawr 2018, dewiswyd rhanbarth Gwent yn rhanbarth braenaru Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan gynghori ar fapio gwasanaethau cyflawnwyr yn effeithiol trwy gyfrwng cyflwyniadau, arolygon a chyfarfodydd. Cyhoeddir adroddiad ag argymhellion yn ddiweddarach yn 2018.

Ym mis Ionawr 2018, cymeradwyodd Bwrdd Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru y Ddogfen Cychwyn Prosiect ar gyfer llif gwaith Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 'Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru' 2018-2023. Bydd digwyddiad lansio ar gyfer y Fframwaith yn cael ei drefnu ar gyfer Ebrill 2018.

Pwyslais ar bolisi cyflawnwyr

Ym mis Mehefin 2017, ymunodd Seicolegydd Fforensig, Dr Cerys Miles, â Llywodraeth Cymru ar drefniant gweithio ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi er mwyn datblygu gwaith ar bolisi cyflawnwyr. Mae'r gwaith hyd yma wedi canolbwyntio i raddau helaeth ar baratoi ar gyfer lansiad 'Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru' 2018-2023, sy'n cefnogi blaenoriaethau Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan, gan gynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Cafodd nodau ac amcanion llif gwaith trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais

rhywiol y fframwaith eu hamlinellu mewn Dogfen Cychwyn Prosiect a'u cadarnhau gan Fwrdd Rheoli Integredig Troseddwr Cymru.

Mae rhwydwaith gwasanaethau cyflawnwyr wedi'i sefydlu a digwyddiadau 'rhannu arferion' rheolaidd wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Rhoddwyd cyngor ar wasanaethau cyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sydd ar gael ar hyn o bryd a'r rhai y gellid eu darparu, megis WISDOM a Drive, ac mae Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth ynghylch gwasanaethau cyflawnwyr yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar y cyd â Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Yn ogystal, rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid ledled Cymru, gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, i ddatblygu dulliau atal ac ymyrraeth gynnar sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mae gwaith ar y gweill hefyd i ddatblygu llwybrau comisiynu ar gyfer gwasanaethau effeithiol i gyflawnwyr. Cynhaliwyd ymarfer mapio gwasanaethau cyflawnwyr yng Ngwent, gan nodi'r gwasanaethau sydd ar gael ar hyn o bryd a gwneud argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus gwasanaethau effeithiol ac effeithlon sy'n ymdrin â risg, angen ac ymatebedd.

Y camau nesaf

Bydd grŵp gorchwyl a gorffen yn datblygu safonau y cytunir arnynt ar gyfer gwasanaethau cyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru er mwyn ategu'r gwaith a wnaed hyd yma ar gomisiynu ac ategu fframweithiau cyflawnwyr sy'n bodoli eisoes.

Bydd dogfen ganllaw ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sy'n dod i gysylltiad â chyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei chwblhau a'i rhannu. Bydd hon yn cynorthwyo gwasanaethau i ganfod cyflawnwyr a'u cyfeirio at wasanaethau arbenigol ar y cyfle cynharaf posibl.

Amcan 4: Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd yn gynnar ac atal

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i drawsnewid ymateb y gwasanaeth cyhoeddus i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae "Gofyn a Gweithredu" yn bolisi a rhaglen hyfforddi sy'n cynyddu lefel sgiliau gweithwyr gwasanaeth cyhoeddus allweddol fel y gallant gynnal ymchwil wedi'i thargedu i ganfod camdriniaeth. Wrth wneud hyn, ein nod yw creu llu o lwybrau newydd y gall dioddefwyr camdriniaeth eu defnyddio i ddatgelu eu profiad a chael y cymorth sydd ei angen arnynt. Drwy flaenoriaethu'r broses hon o ymchwil wedi'i thargedu o fewn awdurdodau lleol a byrddau iechyd, rydym hefyd yn ymateb i dystiolaeth sy'n awgrymu bod gan y gwasanaethau hyn fynediad i grŵp o gleientiaid nad ydynt, yn draddodiadol, yn adrodd wrth y System Cyfiawnder Troseddol, sy'n wynebu llu o beryglon ac sydd mewn sefyllfa addas i dderbyn ymyrraeth gynnar.¹

Cyflawniadau allweddol

Cyhoeddwyd dau ddarn o ganllawiau drafft gweithredol ar “Ofyn a Gweithredu” ym mis Tachwedd 2017: ‘Gweithredu “Gofyn a Gweithredu”: Canllawiau i arweinwyr, cydgysylltwyr a rheolwyr mewn awdurdodau perthnasol’ a ‘Darparu “Gofyn a Gweithredu”: rôl yr ymarferydd rheng flaen’.

Ym mis Medi 2017, cychwynnodd cam 2 y broses o gyflwyno “Gofyn a Gweithredu” yn genedlaethol. Mae pum rhanbarth neu sefydliad yn cynnal hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu” erbyn hyn, gan gynnwys rhanbarth Gwent, rhanbarth Cwm Taf, Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg, pob un o wasanaethau Tân ac Achub Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer cam 3 wedi cychwyn hefyd a bydd sawl rhanbarth newydd yn ymuno â'r rhaglen yn 2018-2019.

Amcan 5: Hyfforddi gweithwyr proffesiynol perthnasol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.

Cyhoeddwyd y ‘Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: Canllawiau statudol, dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006’ yn 2015. Mae'n amlinellu disgwyliaid uchelgeisiol a chllir ar gyfer safonau, canlyniadau a chynnwys hyfforddiant ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Am y tro cyntaf yng Nghymru, o ganlyniad i'r Fframwaith, rhaid i'r awdurdodau perthnasol sicrhau bod yr holl staff yn cael eu hyfforddi i adnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Cyflawniadau allweddol

Ym mis Ebrill 2017, yn unol â'r ‘Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: Canllawiau statudol, dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006’, cyflwynodd yr holl awdurdodau perthnasol gynlluniau hyfforddi pum mlynedd yn dangos sut y byddent yn mynd i'r afael â gofynion y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Ym mis Chwefror 2018, comisiynwyd yr adroddiadau blynyddol cyntaf sy'n ofynnol dan y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Disgwylir i'r rhain gael eu cyflwyno ym mis Mai 2018.

Dengys data a gasglwyd gan Learning@Wales (y platfform sy'n lletya'r rhaglen e-ddysgu) ac a ddarparwyd yn uniongyrchol gan yr awdurdodau perthnasol fod yr e-ddysgu ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (neu'r hyn sy'n cyfateb) wedi'i gwblhau gan 127,103 o weithwyr yng Nghymru.

Pwyslais ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol – e-ddysgu Llywodraeth Cymru ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Bu i'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol amlinellu, am y tro cyntaf, y safonau hyfforddiant gofynnol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar gyfer yr awdurdodau perthnasol a enwir yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Ers hynny, mae cyflwyno'r Fframwaith wedi bod yn rhan greiddiol o waith gwasanaeth cyhoeddus Cymru.

Mae Grŵp 1 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn cynnwys yr holl staff sy'n gweithio o fewn yr awdurdodau perthnasol. Mae gofyn i'r awdurdodau perthnasol ddarparu hyfforddiant sy'n cwrdd â'r deilliannau dysgu canlynol. Bydd staff yn:

- deall beth yw trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- adnabod arwyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; ac yn
- deall eu rôl yn trechu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau perthnasol yn cwrdd â'r gofyniad hwn drwy gynnig y ddarpariaeth e-ddysgu a gynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru i'w staff. Yn 2017-2018 cafwyd gwaith i hyrwyddo'r defnydd o'r rhaglen e-ddysgu; roedd hyn yn cynnwys adolygiad ieithyddol o'r rhaglen, adborth unigol i bob awdurdod a gwaith cymorth yn lleol.

Cafwyd cynnydd sylweddol yn yr hyfforddiant grŵp 1 yr ymgwymerwyd ag ef yn ystod 2017-2018. Cwblhaodd tua 102,000 o weithwyr yr hyfforddiant yn 2017-2018, o'i gymharu â 25,000 rhwng 2015 a 2017.

Cyn cwblhau'r e-ddysgu, roedd 51% o ddysgwyr yn cytuno'n gryf eu bod yn gwybod beth oedd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Cododd hyn i 79% wedi iddynt gwblhau'r rhaglen.

Roedd 56% o ddysgwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn teimlo'n hyderus y gallent adnabod arwyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol cyn iddynt ddechrau'r e-ddysgu. Cododd hyn i 96% wedi iddynt gwblhau'r rhaglen.

Cyn iddynt wneud yr e-ddysgu, roedd llai na chwarter y rhai fu'n cymryd rhan yn hyderus y gallent gyfeirio ffrindiau a theulu at gymorth. Cododd hyn i 64% wedi iddynt gwblhau'r cwrs.

Mae'r e-ddysgu wedi cael ei ddefnyddio ledled gwasanaeth cyhoeddus Cymru ac mae ar gael i unrhyw un sydd eisiau ei ddefnyddio. Hyd yma, mae'r rhai fu'n ymgymryd â'r e-ddysgu yn cynnwys yr awdurdodau perthnasol, prifysgolion ac elusennau.

Y camau nesaf

Yn ystod 2018-2019 gwneir gwaith i sicrhau bod yr e-ddysgu ar gael trwy gyfrwng platform dysgu digidol Hwb er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch i'r rheini sy'n gweithio ym myd addysg.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio â'r sefydliadau hynny nad ydynt, hyd yma, wedi hyfforddi pob aelod o staff hyd at lefel gofynion grŵp 1 er mwyn gwella hygyrchedd a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau technegol sy'n dal i fodoli.

Yn ystod 2019 – 2020 bydd gwaith yn cychwyn i ddiweddaru'r e-ddysgu.

Amcan 6: Rhoi mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau ledled Cymru, a'r rheini'n wasanaethau o ansawdd uchel y darperir adnoddau priodol ar eu cyfer, sy'n seiliedig ar gryfderau, sy'n cael eu harwain gan anghenion ac sy'n ymatebol i rywedd.

Er na ellir cyflawni'r amcan hwn heb gyllid ar y cyd ar gyfer gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan lawer o gyllidwyr, mae portffolio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid sylweddol. Ym mis Ebrill 2017, dyfarnwyd grant refeniw Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol o £4.5 miliwn i awdurdodau lleol a chyrrff arbenigol trydydd sector i gefnogi gwaith sy'n gysylltiedig â Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Ym mis Rhagfyr 2017 cyflwynwyd cynlluniau rhanbarthol oedd yn amlinellu'r strwythurau rhanbarthol er mwyn gallu cyflwyno trefniadau cyllido rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol o 1 Ebrill 2018.

Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddwyd canllawiau drafft ar gyfer comisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn rhanbarthol yng Nghymru er mwyn ymgynghori arnynt. Nod y canllawiau hyn yw hyrwyddo comisiynu cydweithredol o ansawdd uchel sy'n darparu gwasanaethau mwy cyson ac effeithiol i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr ledled Cymru.

Pwyslais ar y canllawiau comisiynu

Ymrwymodd Llywodraeth Cymru yn y Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2016-2021 i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau ar sail yr angen yn lleol ac yn rhanbarthol. Ymrwymodd Llywodraeth Cymru hefyd i ddull rhanbarthol a chydweithredol o ddarparu cyllid Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau mwy o ffocws ar ddarparu gwasanaethau effeithiol, a mynediad i'r gwasanaethau hynny, gan sicrhau gwell gwerth am arian yr un pryd.

Gwnaed gwaith gyda grŵp gorchwyl a gorffen o randdeiliaid i ddatblygu canllawiau statudol ar gomisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a fydd yn cwrdd â'r ymrwymadau hyn. Roedd aelodaeth y grŵp yn cynnwys awdurdodau lleol, cynrychiolwyr iechyd, Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a gwasanaethau arbenigol o bob rhan o'r sbectrwm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Cafodd y canllawiau drafft eu hysgrifennu i ategu Pecyn Cymorth Comisiynu Sefydliad Lloyds a Chanllawiau ar gyfer Strategaethau Lleol Llywodraeth Cymru sy'n bodoli eisoes, ac maent yn amlinellu'r prosesau ar gyfer comisiynu gwasanaethau cymorth cenedlaethol nad ydynt, o reidrwydd, yn cyd-fynd â'r modelau comisiynu arferol.

Y camau nesaf

Rhoddir ystyriaeth bellach i'r canllawiau comisiynu drafft, ar sail adborth a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus i gomisiynu gwasanaethau er mwyn sicrhau parhad a chynaliadwyedd gwasanaethau i ddiodefwyr a goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Dyletswyddau dan y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Ym mis Ionawr 2018, dan Adran 20 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, penodwyd Yasmin Khan a Nazir Afzal yn Gynghorwyr Cenedlaethol newydd ar Drais yn erbyn Menywod, Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, yn dilyn ymadawiad y Cynghorydd Cenedlaethol cyntaf, Rhian Bowen-Davies.

Ym mis Mawrth 2018, dan adran 5 Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, cyhoeddwyd y Canllawiau ar gyfer Strategaethau Lleol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.

Ymchwil a data newydd a fydd yn effeithio ar waith llunio polisi ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru.

Defnyddiwyd yr ymchwil ganlynol yn sail i'r gwaith cyfathrebu ac ymgyrchoedd yn 2017-2018

Adewuyi, E. ac Adefemi, K., (2016) 'Behaviour change communication using social media: a review'. *International Journal of Communication and Health*

Ellsberg, M. (2015) 'Violence Against Women and Girls 1: Prevention of Violence Against Women and Girls – What Does the Evidence Say?', *The Lancet*

Flood, M. (2011) 'Involving Men in Efforts to End Violence Against Women', *Men and Masculinities*

Flood, M. a Pease, B. (2009) 'Factors influencing attitudes to violence against women', *Trauma, Violence and Abuse*, Cyf. 10 (2), tt. 125-142

Gadomski, A. M. et al. (2001) 'Impact of a rural domestic violence prevention campaign'. *Rural Health Practice Applications*

Gusé, E. M., (2008) 'Toward a Theory of Entertainment Persuasion: Explaining the Persuasive Effects of Entertainment-Education Messages', *Communication Theory*, Cyf. 18, tt. 407-425

Happer, C. a Philo, G. (2013) 'The role of the media in the construction of public belief and social change', *Journal of Social and Political Psychology*, Cyf. 1 (1), tt. 321-336

Keller, S., Wilkinson, T., ac Otjen, A.J. (2010) 'Unintended effects of a domestic violence campaign', *American Journal of Advertising*, Cyf. 39 (4), tt. 53-67

Levy Paluck, E. a Ball, L. (2010) Social norms marketing aimed at gender based violence: a literature review and critical assessment, International Rescue Committee

McLaren, F. (2009) 'The Campaign for Action on Family Violence. Effective Social Marketing: complex issues and innovative practice'

Murdough, C. (2009) 'Social Media Measurement: It's not Impossible', *Journal of International Advertising*

Noar, S. M., (2006) 'A 10-Year Retrospective of Research in Health Mass Media Campaigns: Where Do We Go From Here?', *Journal of Health Communications*

Potter, S.J. (2008) 'Incorporating Evaluation into Media Campaign Design', *National Online Resource Center on Violence Against Women*

Potter, S.J. et al. (2009) 'Empowering Bystanders to Prevent Campus Violence against Women: A Preliminary Evaluation of a Poster Campaign', *Violence Against Women*, Cyf. 15 (1), tt. 106-121

Randolph, W. a Viswanath, K. (2004) Lessons learned from public health mass media campaigns in a crowded media world'. *Annual Review of Public Health*, Cyf. 25, tt.419-37

Snyder, L.B. (2006) 'Health communication campaigns and their impact on behavior'. *Society for Nutrition Education*

Wakefield, M.A., Loken, B. a Homik, R.C. (2010) 'The use of mass media campaigns to change health behaviour'. *The Lancet*, Cyf. 376, tt.1261-1271

West, J. J., (2013) 'Doing More Harm than Good: Negative Health Effects of Intimate Partner Violence Campaigns', *Health Marketing Quarterly*, Cyf. 30, tt. 195-205

Wray. R. et al. (2017) 'Preventing Domestic Violence in the African American Community: Assessing the Impact of a Dramatic Radio Serial', *Journal of Health Communication*

Defnyddiwyd yr ymchwil ganlynol yn sail i'r gwaith datblygu a chwmpasu ar gyfer y Fframwaith Cenedlaethol Ymgysylltu â Goroeswyr yn 2017-2018

Basset, T., Campbell, P. ac Anderson, J. (2006) 'Service-user/Survivor Involvement in Mental Health Training and Education: Overcoming the Barriers, *Social Work Education*, Cyf. 25 (4), tt. 393-402

Barnes, M. (2002) 'Bringing difference into deliberation? Disabled people, survivors and local governance', *Policy and Politics*, Cyf. 30 (3), tt. 319-331

Barnes, M. (2008) 'Passionate Participation: Emotional experiences and expressions in deliberative forums', *Critical Social Policy*, Cyf. 28 (4), tt. 461-481

Beresford, P. (2010) 'Public partnerships, governance and user involvement: a service user perspective', *International Journal of Consumer Studies*, Cyf. 34, tt. 495-502

Brosnan, L. (2012) 'Power and Participation: An Examination of the Dynamics of Mental Health Service-User Involvement in Ireland', *Studies in Social Justice*, Cyf. 6 (1), tt. 45-66

Carey, M. (2009) 'Happy Shopper? The Problem with Service User and Carer Participation', *British Journal of Social Work*, Cyf. 39, tt. 179-188

Carey, M. (2010) 'Should I Stay or Should I Go? Practical, Ethical and Political Challenges to 'Service User' Participation within Social Work Research', *Qualitative Social Work*, Cyf. 10 (2), tt. 224-243

Carr, S. (2007) 'Participation, power, conflict and change: Theorizing dynamics of service user participation in the social care system of England and Wales', *Critical Social Policy*, Cyf. 27 (2), tt. 266-276

Cowden, S. a Singh, G. (2007) 'The User: Friend, Foe or Fetish? A critical exploration of user involvement in health and social care', *Critical Social Policy*, Cyf. 27(1), tt. 5-23

De Freitas, C. a Martin, G. (2015) 'Inclusive public participation in health: Policy, practice and theoretical contributions to promote the involvement of marginalised groups in healthcare', *Social Science & Medicine*, Cyf. 135 tt. 31-39

Dorahy, M.J. a Clearwater, K. (2012) 'Shame and Guilt in Men Exposed to Childhood Sexual Abuse: A Qualitative Investigation', *Journal of Child Sexual Abuse*, Cyf. 21, tt. 155-175

- Gaventa, J. (2006) 'Finding the Spaces for Change: A Power Analysis', *Institute of Development Studies*, Cyf. 37 (6)
- Gilfus, M. et al. (1999) 'Research on Violence Against Women: Creating survivor-informed collaborations', *Violence Against Women* [ar gael ar-lein]
- Goodman, L. et al. (2016) 'Survivor-Defined Practice in Domestic Violence Work: Measure Development and Preliminary Evidence of Link to Empowerment', *Journal of Interpersonal Violence*, Cyf. 31(1), tt. 163-185
- Hague, G., (2005) 'Domestic Violence Survivors' Forums in the UK: Experiments in Involving Abused Women in Domestic Violence Services and Policy-making', *Journal of Gender Studies*, Cyf. 14(3), tt. 191-203
- Hodge, S., (2005) 'Participation, discourse and power: a case study in service user involvement', *Critical Social Policy*, Cyf. 25 (2), tt. 164-179
- Holly, J. a Scalabrino, R. (2012) *Treat me like a human being, like someone who matters: Findings of the Stella Project Mental Health Initiative Survivor Consultation*, AvaProject
- Hui, A. a Stickley, T. (2007) 'Mental health policy and mental health service user perspectives on involvement: a discourse analysis', *Journal of Advanced Nursing*, Cyf. 59 (4), tt. 416-426
- Kotamraju, N. a Van Der Geest, T. M. (2012) 'The tension between user-centred design and e-government services', *Behaviour and Information Technology*, Cyf. 31 (3), tt. 261-273
- Lathlean, J. et al. (2006) 'Experiences of service user and carer participation in health care education', *Nurse Education in Practice*, Cyf. 6, tt. 424-429
- Leppo, A. a Perala, R. (2009) 'User involvement in Finland: the hybrid of control and emancipation', *Journal of Health Organisation and Management*, Cyf. 23 (3), tt. 359-371
- Mockford, C. et al., (2012) 'The impact of patient and public involvement on UK NHS health care: a systematic review', *International Journal for Quality in Health Care*, Cyf. 24 (1), tt. 28-38
- Mullender, A. a Hague, G. (2005) 'Giving a voice to women survivors of domestic violence through recognition as a service user group', *British Journal of Social Work*, Cyf. 35, tt. 1321-1341
- Naples, N.A. (2017) 'Deconstructing and Locating Survivor Discourse: Dynamics of Narrative, Empowerment and Resistance of Survivors of Childhood Sexual Abuse', *Signs*, Cyf. 28 (4), tt.1151-1185
- Ontario Association of Interval and Transition Houses (2013), *Survivor Voices Inclusion Project: Creating meaningful survivor engagement*
- Tew, J. (2006) 'Understanding Power and Powerlessness: Towards a Framework for Empancipatory Practice in Social Work', *Journal of Social Work*, Cyf. 6(1), tt. 33-51

VeneKlasen, L. et al., (2004) 'Rights-based approaches and beyond : challenges of linking rights and participation', *Institute of Development Studies* [ar gael ar-lein]

Wydall, S. a Zerk, R. (2017) 'Domestic abuse and older people: factors influencing help-seeking', *Journal of Adult Protection*, Cyf. 19 (5), tt. 247-260

Defnyddiwyd yr ymchwil ganlynol yn sail i'r gwaith yn ymwneud â pholisi cyflawnwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol:

Akoensi, T. D., Koehler, J. A., Lösel, F., a Humphreys, D. K. (2013). Domestic violence perpetrator programs in Europe, part ii: A systematic review of the state of evidence. *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology*, 57(10), 1206–1225. <https://doi.org/10.1177/0306624X12468110>

Arias, E., Arce, R., a Vilariño, M. (2013). Batterer intervention programmes: A meta-analytic review of effectiveness. *Psychosocial Intervention*, 22(2), 153–160. <https://doi.org/10.5093/in2013a18>

Babcock, J., Armenti, N., Cannon, C., Lauve-Moon, K., Buttell, F., Ferreira, R., ... Solano, I. (2016). *Domestic Violence Perpetrator Programs: A Proposal for Evidence-Based Standards in the United States. Partner Abuse*. <https://doi.org/10.1891/1946-6560.7.4.355>

Bates, E. A., Graham-Kevan, N., Bolam, L. T., a Thornton, A. J. V. (2017). *A Review of Domestic Violence Perpetrator Programs in the United Kingdom. Partner Abuse*, 8(1). <https://doi.org/10.1891/1946-6560.8.1.3>

Berry, V., Stanley, N., Radford, L., Mccarry, M., a Larkins, C. (2014). *Adeiladu ymatebion effeithiol: Adolygiad annibynnol o wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru*.

Cannon, C., Hamel, J., Buttell, F., a Ferreira, R. J. (2016). *A survey of domestic violence perpetrator programs in the United States and Canada: Findings and implications for policy and intervention. Partner Abuse*, 7(3), 226–276. <https://doi.org/http://dx.doi.org/10.1891/1946-6560.7.3.226>

Dutton, D. G. (2012). The Prevention of Intimate Partner Violence. *Prevention Science*, 13(4), 395–397. <https://doi.org/10.1007/s1121-012-0306-1>

Eckhardt, C. I., Murphy, C. M., Whitaker, D. J., Sprunger, J., Dykstra, R., a Woodard, K. (2013). *The Effectiveness of Intervention Programs for Perpetrators and Victims of Intimate Partner Violence. Partner Abuse*. <https://doi.org/10.1891/1946-6560.4.2.196>

Ellsberg, M., Arango, D. J., Morton, M., Gennari, F., Kiplesund, S., Contreras, M., a Watts, C. (2015). *Prevention of violence against women and girls: What does the evidence say? The Lancet*, 385(9977), 1555–1566. [https://doi.org/10.1016/S0140-6736\(14\)61703-7](https://doi.org/10.1016/S0140-6736(14)61703-7)

Feder, L., Niolon, P. H., Campbell, J., Wallinder, J., Nelson, R., a Larrouy, H. (2011). *The need for experimental methodology in intimate partner violence: Finding programs that effectively prevent IPV. Violence Against Women*, 17(3), 340–358. <https://doi.org/10.1177/1077801211398620>

- Fundar, C. (2015). *Beyond Domestic Violence Laws: What Else Makes Responses To Domestic Violence Effective*, (Mai).
- Hamby, S. (2014). Intimate Partner and Sexual Violence Research: Scientific Progress, Scientific Challenges, and Gender. *Trauma, Violence, and Abuse*, 15(3), 149–158. <https://doi.org/10.1177/1524838014520723>
- Hamilton, L., Koehler, J. A., a Lösel, F. A. (2013). Domestic Violence Perpetrator Programs in Europe, *Part I. International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology*. <https://doi.org/10.1177/0306624X12469506>
- Humphreys, D. K., ac Akoensi, T. D. (d.d.). *Strengthening Transnational Approaches to Reducing Reoffending Final Report*.
- Kelly a Westmarland. (d.d.). *Project Mirabal - Domestic Violence Perpetrator Programmes*.
- Langhinrichsen-Rohling, J., a Capaldi, D. M. (2012). *Clearly We've Only Just Begun: Developing Effective Prevention Programs for Intimate Partner Violence*. *Prevention Science*, 13(4), 410–414. <https://doi.org/10.1007/s11121-012-0310-5>
- Lilley-Walker, S.-J., Hester, M., a Turner, W. (d.d.). *Evaluation of European Domestic Violence Perpetrator Programmes: Toward a Model for Designing and Reporting Evaluations Related to Perpetrator Treatment Interventions*. *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology*. <https://doi.org/10.1177/0306624X16673853>
- Lösel, F. A., Koehler, J. A., Hamilton, L., Humphreys, D. K., ac Akoensi, T. D. (2011). *Strengthening Transnational Approaches to Reducing Reoffending Final Report*, 1–158. *Cyrchwyd o* [http://www.cepprobation.org/uploaded_files/Rep STARR ENG.pdf](http://www.cepprobation.org/uploaded_files/Rep_STARR_ENG.pdf)
- McLaughlin, K. D. (2017). *Ethical Considerations for Clinicians Treating Victims and Perpetrators of Intimate Partner Violence*. *Ethics and Behavior*, 27(1), 43–52. <https://doi.org/10.1080/10508422.2016.1185012>
- Murray, C., Ong, I., Smith, P. H., Foreman, T., Akers, W., Flasch, P., ... Dooley, R. (2015). *Linking research and practice to address domestic and sexual violence: lessons learned from a statewide conference with researchers and practitioners*. *Journal of Aggression, Conflict and Peace Research*, 7(2), 76–87. <https://doi.org/10.1108/JACPR-07-2014-0129>
- Robinson, A. L. (2017). *Serial Domestic Abuse in Wales: An Exploratory Study Into its Definition, Prevalence, Correlates, and Management*. *Victims and Offenders*, 12(5), 643–662. <https://doi.org/10.1080/15564886.2016.1187691>
- Stover, C. S., Meadows, A. L., a Kaufman, J. (2009). *Interventions for intimate partner violence: Review and implications for evidence-based practice*. *Professional Psychology: Research and Practice*, 40(3), 223–233. <https://doi.org/10.1037/a0012718>
- Velonis, A. J., Cheff, R., Finn, D., Davloor, W., ac O'Campo, P. (2016). *Searching for the mechanisms of change: A protocol for a realist review of batterer treatment programmes*. *BMJ Open*, 6(4), 1–9. <https://doi.org/10.1136/bmjopen-2015-010173>
- Vigurs, C., Schucan-Bird, K., Quy, K., a Gough, D. (d.d.). *WHAT WORKS: CRIME REDUCTION SYSTEMATIC REVIEW SERIES No 5. THE IMPACT OF DOMESTIC*

VIOLENCE PERPETRATOR PROGRAMMES ON VICTIM AND CRIMINAL JUSTICE OUTCOMES: A SYSTEMATIC REVIEW OF REVIEWS OF RESEARCH EVIDENCE.

Woodhouse, B. J., a Dempsey, N. (2016). *Domestic violence in England and Wales, (6337)*.

ⁱ Ymchwil THEMIS – Mehefin 2013 #1 Safelives

<http://www.safelives.org.uk/sites/default/files/resources/THEMIS%20ARTWORK.pdf>